**YSGOL WOW NEWYDD**

Annwyl riant/gofalwr,

Mae ysgol eich plentyn wedi dewis bod yn rhan o fenter newid ymddygiad gyffrous i annog mwy o blant a'u teuluoedd i gerdded i'r ysgol. **Caiff WOW – yr her cerdded i'r ysgol** ei chyflwyno gan Living Streets, elusen y DU ar gyfer cerdded bob dydd, i helpu cymaint o blant â phosibl i brofi manteision cerdded i'r ysgol.

Mae'r her sy'n cael ei harwain gan ddisgyblion yn galluogi plant i ddefnyddio dull hunanadrodd i nodi sut maen nhw'n cyrraedd yr ysgol bob dydd. Os ydynt yn teithio'n llesol (cerdded/troelli, seiclo, sgwtera neu Barcio a Cherdded) o leiaf unwaith yr wythnos am fis, cânt eu gwobrwyo â bathodyn. Mae mor syml â hynny!

## Beth yw manteision cerdded i'r ysgol?

- Mae'r plant yn teimlo'n hapusach ac yn iachach
- Mae'r plant yn cyrraedd yr ysgol wedi eu hadfywio ac yn barod i ddysgu
- Mae'n helpu i leihau tagfeydd a llygredd wrth gatiau'r ysgol

## Beth os na allwn ni gerdded i'r ysgol?

Parciwch a Cherddwch i helpu'ch plentyn i ennill ei fathodynnau WOW. Gallwch barcio neu ddod oddi ar drafnidiaeth gyhoeddus **o leiaf ddeg munud i ffwrdd** o'r ysgol a cherdded gweddill y daith.

## Beth yw bathodyn WOW?

Mae 11 o fathodynnau i'w hennill rhwng mis Medi 2023 a mis Gorffennaf 2024. Mae pob bathodyn wedi'i ddylunio gan ddisgybl o bob rhan o'r DU fel rhan o'n Cystadleuaeth Dylunio Bathodyn WOW blynyddol. Gellir ennill bathodyn newydd bob mis os ydych yn cerdded/troelli, seiclo, sgwtera neu'n Parcio a Cherdded o leiaf unwaith yr wythnos.

Bydd disgyblion yn cymryd rhan yn ***Nhaith Gerdded Natur Prydain***, gan ennill bathodynnau sy'n amrywio o'r llwynog trefol i Gamlas Rochdale, wrth ddod yn nes at fyd natur ledled Prydain.

Caiff y bathodynnau eu creu yng Nghernyw o ddeunydd plastig wedi'i ailgylchu a fyddai fel arall yn mynd i safleoedd tirlenwi, gan gynnwys hen hambyrddau oergell, platiau plastig a thoriadau potiau iogwrt. Am ragor o wybodaeth, ewch i: **livingstreets.org.uk/recycling**

Yn y DU y llynedd, gwnaeth tua 2,000 o ysgolion a dros hanner miliwn o ddisgyblion fwynhau manteision cerdded i'r ysgol gyda WOW. A fyddwch chi'n ymuno â ni?

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y rhaglen, cysylltwch â

…......................................................, neu dewch o hyd i ragor o wybodaeth a fideos defnyddiol yn: **livingstreets.org.uk/wowlaunch**

**Gadewch i ni gyfnewid y teithiau hynny i'r ysgol yn y car am deithiau cerdded i'r ysgol.**

133 Whitechapel High Street, Aldgate, E1 7QA
020 7377 4900 info@livingstreets.org.uk livingstreets.org.uk

Living Streets (The Pedestrians Association) is a Registered Charity No. 1108448 (England and Wales) and SC039808 (Scotland).
Company Limited by Guarantee (England & Wales), Company Registration No. 5368409. 133 Whitechapel High Street, Aldgate, E1 7QA

**YSGOL WOW SY'N DYCHWELYD**

Annwyl riant/gofalwr,

Mae cynllun Living Streets, **WOW** – yr her cerdded i'r ysgol yn ôl i helpu i annog cynifer o blant â phosibl i brofi manteision cerdded i'r ysgol.

Fel y gwyddoch chi, mae WOW yn fenter sy'n cael ei harwain gan ddisgyblion lle mae'r plant yn defnyddio dull hunanadrodd i nodi sut maen nhw'n cyrraedd yr ysgol bob dydd. Os ydynt yn teithio'n llesol (cerdded/troelli, seiclo, sgwtera neu Barcio a Cherdded) o leiaf unwaith yr wythnos am fis, cânt eu gwobrwyo â bathodyn. Mae mor hawdd â hynny!

## Beth yw manteision cerdded i'r ysgol?

- Mae'r plant yn teimlo'n hapusach ac yn iachach
- Mae'r plant yn cyrraedd yr ysgol wedi eu hadfywio ac yn barod i ddysgu
- Mae'n helpu i leihau tagfeydd a llygredd wrth gatiau'r ysgol

## Beth os na allwn ni gerdded i'r ysgol?

Cofiwch y gallwch Barcio a Cherdded i helpu'ch plentyn i ennill ei fathodynnau WOW. Gallwch barcio neu ddod oddi ar drafnidiaeth gyhoeddus **o leiaf ddeg munud** i ffwrdd o'r ysgol a cherdded gweddill y daith.

## Bathodynnau WOW

Mae yna 11 o fathodynnau WOW newydd i'w hennill, un ar gyfer pob mis o'r flwyddyn ysgol. Mae pob bathodyn wedi'i ddylunio gan ddisgybl o bob rhan o'r DU fel rhan o'n Cystadleuaeth Dylunio Bathodyn WOW blynyddol.

Bydd disgyblion yn cymryd rhan yn ***Nhaith Gerdded Natur Prydain***, gan ennill bathodynnau sy'n amrywio o'r Llwynog Trefol i Gamlas Rochdale, wrth ddod yn nes at fyd natur ledled Prydain.

Caiff y bathodynnau eu creu yng Nghernyw o ddeunydd plastig wedi'i ailgylchu a fyddai fel arall yn mynd i safleoedd tirlenwi, gan gynnwys hen hambyrddau oergell, platiau plastig a thoriadau potiau iogwrt. Am ragor o wybodaeth, ewch i: **livingstreets.org.uk/recycling**

Yn y DU y llynedd, gwnaeth tua 2,000 o ysgolion a dros hanner miliwn o ddisgyblion fwynhau manteision cerdded i'r ysgol gyda WOW. A fyddwch chi'n ymuno â ni?

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y rhaglen, cysylltwch â

……………………………………………………, neu dewch o hyd i ragor o wybodaeth a fideos defnyddiol yn: **livingstreets.org.uk/wowlaunch**

**Gadewch i ni gyfnewid y teithiau hynny i'r ysgol yn y car am deithiau cerdded i'r ysgol.**

133 Whitechapel High Street, Aldgate, E1 7QA
020 7377 4900 info@livingstreets.org.uk livingstreets.org.uk

Living Streets (The Pedestrians Association) is a Registered Charity No. 1108448 (England and Wales) and SC039808 (Scotland).
Company Limited by Guarantee (England & Wales), Company Registration No. 5368409. 133 Whitechapel High Street, Aldgate, E1 7QA